**COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR TELEDU CYLCH CYFYNG**

**A GYNHALIWYD AR 6ED TACHWEDD 2023**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eifiona Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Rory Francis

Y Cynghorydd Mark Thomas

Y Cynghorydd Gareth Davies

Y Cynghorydd Troy MacLean

Y Cynghorydd Morwenna Pugh

Kevin Jones – Gosodwr TCC

Sioned Graham-Cameron – Clerc y Cyngor Tref

**1. Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths a Linda Ann Jones.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. System Teledu Cylch Cyfyng y Cyngor Tref**

Cafwyd cyflwyniad cynhwysfawr iawn gan Kevin Jones, yn amlinellu'r system bresennol a'r ffaith mai ychydig iawn o'r camerâu a oedd yn gweithio'n foddhaol a bod rhai nad oeddynt yn gweithio o gwbl.

Gwnaethpwyd nifer o sylwadau ar ôl cyflwyniad Kevin:

Y Cynghorydd Mark Thomas: roedd yr heddlu yn gorfod aros os ar benwythnos os yw'r busnes wedi cau.

Y Cynghorydd Rory Francis: nid oedd yr heddlu yn gofyn am gael gweld delweddau. Allai Kevin sicrhau cadw at reolau GDPR? Dywedodd Kevin bod angen y llwybr papur y gellir ei olrhain. Pwysig bod y system yn cydymffurfio at y dyfodol

Y Cynghorydd Mark Thomas: Y Cyngor Tref yw'r Rheolydd Data a'r heddlu yw'r gwrthrych. Pwysleisio unwaith eto bwysigrwydd cadw at reolau GDPR, a chanlyniadau unrhyw dor-rheol.

Kevin: Mae llwybr olrhain ebyst gyda cheisiadau heddlu; mae achosion personol yn wahanol.

Y Cynghorydd Mark Thomas: Angen Is-bwyllgor i benderfynu ar achosion personol.

Dywedwyd y byddai'n syniad holi'r heddlu o ran y lleoliadau gorau ar gyfer unrhyw gamerâu sydd i'w gosod os bydd rhai newydd, neu os symudir rhai presennol sy'n gweithio. Angen arwyddion newydd gyda phob camera. Angen amgryptiad fel na fydd neb yn lleoliadau'r camerâu yn gallu gweld delweddau. Bocsys newydd, amgryptiad a chyfyngu mynediad at y

DRAFT

delweddau. Cael cynllun cynnal a chadw lle mae'r camerâu yn cael eu harchwilio yn rheolaidd, fel prawf PAT, ac adrodd yn ôl i'r Clerc os oes angen gwneud rhywbeth.

O ran ymgynghori, awgrymwyd y gellid anfon llythyr at fusnesau ar y stryd fawr, efallai rhoi datganiad ar Facebook a'r Cambrian News a Llafar Bro.

Cytunwyd y dylai cynghorwyr gerdded o gwmpas y dref i ddechrau a mapio'r Blaenau o ran y lleoliadau gorau, ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor TCC, i'w gynnal ar 27ain Tachwedd 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 9pm,

DRAFFT